**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 15 Medi 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| J A Hale | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | W G Lewis | G J Tanner |
| W G Thomas | T M White | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | L R Jones |
| P R Hood-Williams | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner

---

## 151 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 152 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 153 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 25 Awst 2020 fel cofnod cywir.

**154 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**155 Adolygiad Blynyddol o Rhaglen Waith Craffu ar Gyfer 2019/20.**

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Craffu adroddiad ar 'Adolygiad Blynyddol Rhaglen Waith Craffu 2019/20'.

Fel arfer da, anogodd y Pwyllgor i edrych yn ôl ar waith y flwyddyn ac ystyried ei effeithiolrwydd. Diben yr adroddiad oedd hwyluso'r drafodaeth am waith a wnaed, myfyrio a rhannu syniadau o ran gwella arfer a'r rhaglen waith. Tynnodd yr adroddiad sylw at yr effaith a gafodd adnoddau a COVID-19 ar gyflawni'r rhaglen waith eleni.

Tynnodd Arweinydd y Tîm Craffu sylw at y meysydd canlynol:

1) Crynodeb o'r Gwaith a Gwblhawyd
   - Y gwaith a wnaed gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu, drwy'r Panel Ymchwiliad, Paneli Perfformiad a Gweithgorau, yn erbyn rhaglen waith craffu gytunedig 2019/20
   - Cynnwys y cyhoedd a sylw yn y cyfryngau

2) Y Profiad Craffu
   - Ystadegau perthnasol ynghylch gweithgarwch craffu
   - Papur arfer da Swyddfa Archwilio Cymru ar 'Chwe Cham tuag at Graffu Gwell yng Nghymru'
   - Cynnydd yn erbyn amcanion gwella craffu'r pwyllgor, gan gynnwys camau gweithredu mewn ymateb i Adolygiad Craffu Swyddfa Archwilio Cymru yn 2018

3) Datblygu Rhaglen Waith y Dyfodol
   - Gweithgareddau i'w cario drosodd
   - Pynciau sy'n weddill i'w hystyried
   - Cais gan aelodau am graffu cyn penderfynu ar adroddiad Cabinet sydd ar ddod ar droi'r Ganolfan Ddinesig yn Ganolfan Sector Cyhoeddus newydd
   - Cynnig i gynnal Cynhadledd Cynllunio Gwaith ar 13 Hydref 2020 yn lle Pwyllgor y Rhaglen Graffu a drefnwyd
   - Datblygu rhaglen waith ar gyfer y 18 mis nesaf

Roedd y prif bwyntiau a gododd o drafodaeth ar faterion gwaith a gwella a datblygu yn y dyfodol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n bwysig adolygu ffocws Paneli Perfformiad/cynlluniau gwaith. Cydnabuwyd y bydd Swyddogion Craffu yn trafod gyda chynullwyr y Panel wrth i gynlluniau gwaith newydd y Panel gael eu llunio i sicrhau eu bod yn effeithiol, yn cynrychioli'r defnydd gorau o amser ac adnoddau, ac yn ystyrlon, fel y gall Paneli gael effaith/gwneud gwahaniaeth.

- Dylid rhoi gwybod i'r pwyllgor am gynlluniau gwaith y Panel Perfformiad er mwyn gwella goruchwyliaeth y pwyllgor o bynciau sy'n cael eu harchwilio, gwirio'r sylw ar draws portffolios y Cabinet, a helpu i osgoi dyblygu ymdrech rhwng y pwyllgor a'r Paneli a rhwng Paneli etc.
- Bu'r aelodau'n myfyrio ar asesiadau allanol cadarnhaol o drefniadau ac arferion craffu Abertawe ac yn eu cydnabod.
- Yr angen am hyblygrwydd yn y rhaglen waith i ganolbwyntio ar y materion pwysicaf e.e. COVID, Brexit.
- Pwysigrwydd cymorth ymchwil i graffu.
- Er bod gwaith dilynol strwythuredig da ar gyfer Ymchwiliadau, dylai fod mwy o amser i fynd ar drywydd argymhellion eraill, yn enwedig gan Weithgorau.
- Y potensial ar gyfer mwy o adroddiadau i'r Cabinet, yn hytrach na llythyrau, yn dilyn Gweithgorau - a fydd yn arwain at argymhellion mwy ffurfiol sy'n gofyn am ymateb ffurfiol.
- Dymuniad i drafod y Strategaeth Digartrefedd, flwyddyn yn ddiweddarach ar ôl ei chymeradwyo gan y Cabinet, mewn cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.
- Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion gwella craffu – gan nodi nifer bach a gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau – a bydd y Pwyllgor yn ystyried amcanion gwella eraill ar gyfer y dyfodol a/neu gamau gweithredu newydd a fydd yn helpu i gyflawni amcanion a nodwyd eisoes

Diolchodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor i'r Tîm Craffu am eu cefnogaeth a'u gwaith, ar ran cynghorwyr craffu, gan ymdopi â phrinder staff dros y flwyddyn ddiwethaf, cefnogi'r cyngor drwy gydol y pandemig, ac am ail-ddechrau ar weithgarwch craffu.

**Penderfynwyd** y dylid cynnal Cynhadledd Cynllunio Gwaith o bell, ar gyfer pob cynghorydd craffu, ar 13 Hydref 2020 yn lle Pwyllgor y Rhaglen Graffu.

## 156 Cynllun Gwaith Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar Gyfer y Dyfodol.

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad ar 'Gynllun Gwaith Pwyllgor y Rhaglen Craffu ar gyfer y Dyfodol' a thynnwyd sylw at dri chynnig allweddol, yn cynnwys rhywfaint o addasiad i Gynllun Gwaith y Pwyllgor, a'r ffordd o weithio, er mwyn creu lle yn y rhaglen waith gyffredinol ar gyfer gweithgarwch craffu:

- Ystyried symud oddi wrth sesiynau holi ac ateb misol arferol Aelodau'r Cabinet er mwyn creu lle i fynd i'r afael â materion penodol sy'n peri pryder;

- Craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy Gyfarfodydd Pwyllgor yn hytrach na thrwy Banel Perfformiad annibynnol.

- Newid amlder y Gwasanaethau i Oedolion (o fisoedd) a Phaneli Perfformiad y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd (o bob deufis) – gan symud i gylch 6 wythnos, gan gynrychioli newid niwtral o ran cymorth swyddogion yn gyffredinol.

Cynigiwyd hefyd y dylid cynyddu amlder Panel Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol i bob deufis.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Bod Pwyllgor y Rhaglen Craffu yn symud oddi wrth sesiynau Holi ac Ateb misol arferol Aelodau'r Cabinet i ddull wedi'i dargedu'n well, gan ganolbwyntio ar faterion sy'n peri pryder;

2) Bod Pwyllgor y Rhaglen Craffu yn craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hytrach na thrwy Banel Perfformiad annibynnol - cynrychiolwyr partner a gyfetholwyd ar y Panel i gael eu cyfethol i'r Pwyllgor ar gyfer sesiynau craffu penodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

3) Dylid diwygio amlder Paneli Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Deuluoedd fel bod gan y ddau banel gylch 6 wythnos; a

4) Dylid cynyddu amlder Panel Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol mewn egwyddor, o bob chwarter i bob deufis, yn amodol ar gytundeb y rhaglen waith craffu gyffredinol.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.50 pm

**Cadeirydd**